# Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Datganiad Polisi Cyflogau 2016/17

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cydnabod pwysigrwydd tegwch a thryloywder ynghylch ei threfniadau cyflogau ar gyfer staff a'i chyfrifoldeb i sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfwerth.

1.2. Diben y datganiad hwn yw rhoi tryloywder ynghylch dull y brifysgol o bennu cyflogau ei staff trwy'r nodi'r dulliau a ddefnyddir i benderfynu cyflogau'r holl staff.

1.3. Mae'r datganiad wedi ei lunio i helpu i wella dealltwriaeth a hyder y cyhoedd ynghylch y modd y pennir cyflogau'r staff uwch yn enwedig.

## 2. Fframwaith deddfwriaethol

2.1. Ffurfiwyd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar 18 Tachwedd 2010 trwy uno Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin dan Siarter Frenhinol Llanbedr Pont Steffan sy'n dyddio o 1828.

Daeth Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn rhan o'r Drindod Dewi Sant ar 1 Awst 2013. Siarter Frenhinol y Brifysgol yw'r hynaf yng Nghymru a Lloegr ar ôl prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.

Mae'r Drindod Dewi Sant wedi arwain datblygiad strwythur prifysgol sector deuol, a elwir yn Grŵp Y Drindod Dewi Sant, fframwaith i alluogi cydweithredu gyda sefydliadau eraill yn y rhanbarth. Yn rhan o'r datblygiad hwn, unodd Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion â Grŵp Y Drindod Dewi Sant yn 2013/14. Fe'u cynrychiolir ar y prif gyrff sy'n gwneud penderfyniadau academaidd o fewn y Brifysgol, gan gadw eu hunaniaeth sefydliadol nodedig eu hunain.

Mae'r Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i integreiddio cyfansoddiadol di-droi'n ôl er mwyn creu Prifysgol sector deuol ar ei newydd wedd i Gymru. Mae'r ddwy Brifysgol wedi bod wrth galon addysg a bywyd diwylliannol Cymru ers eu sefydlu yn 1828 a 1893.

2.2. Wrth benderfynu tâl a chyflogau pob un o'i gweithwyr, bydd y Brifysgol yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol.

## 3. Strwythur cyflogau a gwneud penderfyniadau

3.1. Negododd Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau (UCEA) a'r undebau llafur a gydnabyddir gan y sector addysg uwch Gytundeb Fframwaith Cenedlaethol ym mis Mai 2004 i ddiwygio strwythurau cyflogau, graddau a rhai telerau ac amodau ar draws y sector.

3.2. Gweithredwyd Cytundeb y Fframwaith Cenedlaethol yn lleol ym mhob un o'r sefydliadau ffurfiol a unodd i greu'r Drindod Dewi Sant. Cafodd cytundeb lleol

newydd ei negodi yn 2013 ag undebau llafur cydnabyddedig Y Drindod Dewi Sant pan gysonwyd telerau ac amodau cyflogaeth yn dilyn uno'r Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe ac mae'n parhau yn ei le heddiw. Mae cwmpas y cytundeb yn cynnwys yr holl staff ac eithrio'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion a'r Pro Is-Gangellorion.

3.3. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu a gweithredu system ddadansoddol, wrthrychol ar gyfer gwerthuso swyddi, Dadansoddiad Rôl Addysg Uwch (HERA) ar gyfer yr holl staff ac eithrio'r swyddi rheoli ar lefel cyflogau uwch na'r golofn gyflogau sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol (Atodiad 1).

3.4. Mae cytundeb lleol yn cynnwys diffiniad o'r strwythur graddau a'r dyddiad y codiadau graddol ar gyfer staff ym mhob graddfa, sef 1 Awst bob blwyddyn.

3.5. Mae'r Brifysgol hefyd yn gwneud taliad ychwanegol ar gyfer y Cyflog Byw go iawn fel y'i penderfynwyd gan y Living Wage Foundation sy'n berthnasol ar hyn o bryd i'r staff a gyflogir ar hyn o bryd ar bwyntiau 2, 3 a 4 ar y golofn gyflogau.

## 4. Cydfargeinio

4.1. Mae'r Drindod Dewi Sant yn cydnabod yr undebau llafur canlynol at ddibenion cydfargeinio o ran telerau ac amodau cyflogaeth drwy gytundebau lleol:

- Undeb y Prifysgolion a'r  Colegau (UCU)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- UNSAIN

4.2. Caiff adolygiad cyflogau blynyddol ar werthoedd ariannol y golofn gyflogau ei negodi ar lefel genedlaethol o dan arweiniad yr UCEA ar ran y prifysgolion sy'n aelodau ac a ddewisodd bob blwyddyn a ddylent gymryd rhan ai peidio.

4.3. Mae gweithdrefn genedlaethol y cytunwyd arni ar gyfer negodi ar gyflogau, sy'n cynnwys tri chyfarfod rhwng yr UCEA ac undebau llafur sy'n cynrychioli'r sector. Cynhelir y cyfarfodydd ym mis Mawrth, Ebrill a Mai bob blwyddyn ac mae'r dyfarniad cyflogau cyfredol yn effeithiol o 1 Awst ymlaen.

## 5. Cyflogau staff uwch

5.1. Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am sefydlu Pwyllgor Sefydlog y Cyngor, o'r enw'r Pwyllgor Taliadau Staff Uwch i benderfynu ar gyflogau teg a phriodol ar gyfer yr Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion a'r Pro Is-Gangellorion.

5.2. Mae Pwyllgor Taliadau Staff Uwch yn gyfrifol am adolygu a phenderfynu o flwyddyn i flwyddyn ar gyflogau, telerau ac amodau, a phan fo'n briodol amodau diswyddo deiliaid yr uwch swyddi uchod. Cyhoeddir cylch gorchwyl Pwyllgor Taliadau Staff Uwch ar wefan y Brifysgol gan sicrhau bod y rhain ar gael i'r staff, myfyrwyr a'r holl randdeiliaid mewn modd agored a thryloyw: https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/governance/uwtsd-ordinances.pdf Nid yw'r Is-Ganghellor yn aelod o'r pwyllgor hwn.

5.3. Mae Pwyllgor Taliadau Staff Uwch yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr holl argymhellion yn deg ac yn ystyried budd y sefydliad, y prif randdeiliaid a phartneriaid gan gynnwys cymuned y myfyrwyr a'r gymuned ehangach. Mae diogelu arian cyhoeddus hefyd yn rhan o'i drafodaethau.

5.4. Mae'r Pwyllgor yn ystyried gwybodaeth gymharol o Brifysgolion eraill i lywio ei benderfyniadau gan gynnwys cyfradd codiadau blynyddol cyflogau cyfartalog holl aelodau eraill y staff.

Isod nodir y codiad canran cymedrig a ddyfarnwyd canran cynnydd cymedrig a ddyfarnwyd i aelodau Tîm Uwch y Brifysgol yn 2016/17 a'r prif gynnydd canran cymedrig i'r holl staff eraill yn 2016/17:

| | Codiad canran cymedrig |
|---|---|
| Aelodau'r Tîm Uwch | 1.66% |
| Yr holl staff eraill | 2.88% |

5.5. Mae Cadeirydd Pwyllgor Taliadau Staff Uwch yn gyfrifol am gyflwyno argymhellion Pwyllgor Taliadau Staff Uwch i Gyngor y Brifysgol.

5.6. Mae'r Drindod Dewi Sant yn cyhoeddi ei Ddatganiadau Ariannol ar gyfer pob blwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf. Mae hyn yn cynnwys cyflog yr Is-Ganghellor. I weld y Datganiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2017, ewch i: https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/finance/consolidated-financial-statements2017.pdf

5.7. Mae Is-Ganghellor Y Drindod Dewi Sant hefyd yn Is-Ganghellor Prifysgol Cymru a dyrennir cyfran briodol o'r cyflog blynyddol i Brifysgol Cymru yn unol â hyn.

## 6. Y cyflog byw go iawn

6.1. Gweithredwyd y cyflog byw go iawn ar sail wirfoddol o 1 Awst 2017 ymlaen ar gyfer y gyfradd bresennol o £8.45 trwy dalu ychwanegiadau fesul awr i'r staff sy'n cyflawni rolau sylweddol ar bwyntiau 2 - 4 colofn gyflogau sengl 2017-18 (Atodiad 1).

## 7. Perthynoledd cyflogau

7.1. Pwynt 2 ar y golofn gyflogau yw'r cyflog isaf (Atodiad 1). Yr Is-Ganghellor yw'r aelod o'r staff sydd â'r cyflog uchaf.

Y gymhareb rhwng y cyflogau uchaf a'r cyflogau canolrif ar gyfer y Brifysgol ar gyfer 2016/17 (gyda chymhareb 2015/16 er cymhariaeth) yw:

| | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|
| Y gymhareb rhwng y cyflogau uchaf a'r cyflogau canolrif | 1 : 6.57 | 1 : 6.51 |

Cyfrifwyd y cymarebau yn ôl methodoleg yr UCEA i helpu gyda chysondeb a hwyluso cymariaethau.

**Atodiad 1**

# Colofn gyflogau sengl AU

Mae'r golofn gyflogau sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol yn cynnwys y rhan fwyaf o sefydliadau'r DU gan gynnwys Y Drindod Dewi Sant

| | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|
| **Pwynt ar y golofn** | **Cyflog o fis Awst 2016 ymlaen** | **Cyflog o fis Awst 2017 ymlaen** |
| 1 | 14,767 | - |
| 2 | 15,052 | 15,417 |
| 3 | 15,356 | 15,721 |
| 4 | 15,670 | 16,035 |
| 5 | 15,976 | 16,341 |
| 6 | 16,289 | 16,654 |
| 7 | 16,618 | 16,983 |
| 8 | 16,961 | 17,326 |
| 9 | 17,399 | 17,764 |
| 10 | 17,898 | 18,263 |
| 11 | 18,412 | 18,777 |
| 12 | 18,940 | 19,305 |
| 13 | 19,485 | 19,850 |
| 14 | 20,046 | 20,411 |

| | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|
| 15 | 20,624 | 20,989 |
| 16 | 21,220 | 21,581 |
| 17 | 21,843 | 22,214 |
| 18 | 22,494 | 22,876 |
| 19 | 23,164 | 23,557 |
| 20 | 23,879 | 24,285 |
| 21 | 24,565 | 24,983 |
| 22 | 25,298 | 25,728 |
| 23 | 26,052 | 26,495 |
| 24 | 26,829 | 27,285 |
| 25 | 27,629 | 28,098 |
| 26 | 28,452 | 28,936 |
| 27 | 29,301 | 29,799 |
| 28 | 30,175 | 30,688 |
| 29 | 31,076 | 31,604 |
| 30 | 32,004 | 32,548 |
| 31 | 32,958 | 33,518 |
| 32 | 33,943 | 34,520 |
| 33 | 34,956 | 35,550 |
| 34 | 36,001 | 36,613 |
| 35 | 37,075 | 37,706 |
| 36 | 38,183 | 38,833 |

| | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|
| 37 | 39,324 | 39,992 |
| 38 | 40,523 | 41,212 |
| 39 | 41,709 | 42,418 |
| 40 | 42,955 | 43,685 |
| 41 | 44,240 | 44,992 |
| 42 | 45,562 | 46,336 |
| 43 | 46,924 | 47,722 |
| 44 | 48,327 | 49,149 |
| 45 | 49,772 | 50,618 |
| 46 | 51,260 | 52,132 |
| 47 | 52,793 | 53,691 |
| 48 | 54,372 | 55,297 |
| 49 | 55,998 | 56,950 |
| 50 | 57,674 | 58,655 |
| 51 | 59,400 | 60,410 |